
# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

# CYMDEITHAS TED BREEZE JONES



RHIF 24 – NADOLIG 2011




## DILYN Y GWEILCH

### O Gymru i'r Gambia bell

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

ERYR Y MÔR

GWYLAN BONAPARTE - YN PORT!

COLOMENNOD Y POST

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

***ER BUDD ADAR A BYD NATUR***

# Golygyddol 24

Darlith y Nadolig eleni oedd sgwrs hynod ddiddorol gan Emyr Evans, gynt o brosiect Gweilch Glaslyn ond sydd bellach wedi symud i Fachynlleth ac yn gweithio i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn ar brosiect Gweilch y Ddyfi. Cawsom noson hynod ddiddorol, gyda lluniau gwych fel yr ydym wedi dod i ddisgwyl gan Emyr bob tro – mae'n ffotografydd heb ei ail. Ond aeth a ni ymhellach i'r de na Machynlleth, o do! Oblegid un o ddatblygiadau cyffrous y flwyddyn oedd y defnydd o dechnoleg I ddilyn hynt a helynt adar ymfudol.

Yn gyntaf, cawsom anturiaethau'r cogau a ddilynwyd ar wefan y BTO. Ac yna, cywion gweilch y Ddyfi. Am y tro cyntaf, diolch i dri teclyn oedd yn gwneud i'r adar edrych fel rhyw deganau 'radio control' bron iawn, roedd modd dilyn eu taith mewn amser byw, a gellid gweld Einion, Dulas a Leri yn teithio i'w cartrefi dros y gaeaf ar sgrin y cyfrifiadur. Aeth rhai yn fwy unionsyth na'r lleill (gan i un dreulio peth amser ar arfordir dwyrain Lloegr wedi i wyntoedd cryfion o'r gorllewin ei chwythu ar gyfeiliorn) ond yn rhyfeddol cyrhaeddodd y tri yn saff i ardal y Gambia a Senegal, ble maent ar hyn o bryd.

A dyna ni yn cysylltu'n daclus â sgwrs arall ddiweddar gan Twm Elias yn olrhain rhai o stampiau diddorol y byd. Bu Twm yn gasglwr brwd ers yn ddim o beth, ac ymysg ei gasgliad difyr o stampiau adaryddol oedd y rhai a welir ar glawr y rhifyn hwn o *Llygad Barcud* – ie, yn rhyfeddol dyma stampiau o'r Gambia gyda gweilch y pysgod yn serennu, a'u taith o ogledd Ewrop yn cael ei ddathlu drwy gyfrwng sgwariau bach gludiog o bapur! (os bu i chi fethu sgwrs Twm, rydym wedi cael addewid y bydd cyfle eto yn y Gynhadledd ym mis Hydref gyda'r llaw.)

Y gobaith yw y byddwn, gyda hyn, yn medru dathlu dychweliad cywion a aned yng Nghymru yn ôl i'r hen wlad ac y byddant yn eu tro yn magu cywion eu hunain. A'r tro hwn cawn ddilyn tri ohonynt bob cam o'r ffordd, a'u gwylio wedi iddynt gyrraedd (gobeithio), a ddathlu llwyddiant dychweliad cenhedlaeth o weilch y pysgod Cymreig.

A dyna ddangos gwir werth cofnodi ac astudio adar ynte?




***Nodyn gan y Trysorydd***

*Hoffwn ddiolch i'r mwyafrif o'n haelodau sydd wedi talu eu tâl aelodaeth bellach, gan fod y flwyddyn aelodaeth yn dechrau ar Dachwedd y 1af. Buasai'n fantais fawr iawn cael y cyfan i mewn erbyn diwedd y flwyddyn, a bydd rhifyn y Pasg o Llygad Barcud yn cael ei bostio i'r aelodau fydd wedi talu'n llawn yn unig.*

*Diolch hefyd i Sian Jones (Llandwrog) am gymeryd y swydd o Ysgrifenyddes Aelodaeth, er y byddwn yn rhannu'r swydd eleni.*

*Diolch, D Brian Paul*

*Cyfranwch i'r wefan:* ***www.cymdeithastedbreezejones.org.uk***

**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 24 – Nadolig 2011**

**Cyfranwyr –**
Ieuan Bryn, Twm Elias, Elfyn Lewis, Rhodri Dafydd

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywyddion Anrhydeddus –**
Iolo Williams
Anwen Breeze Jones

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500

**Rheolwr y Wefan**
Gareth Jones – www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

**Ysgrifennydd Aelodaeth-**
Sian Jones, Llandwrog – Manylion i ddilyn!

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd, 2 Maes Llydan, Capel Garmon, Llanrwst Conwy LL26 0RN, (01690) 710 312

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Chwefror os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.


Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Siopau Crib Goch**, Caernarfon a Llanberis – 10%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

# Gwylan Bonaparte yn Port

Elfyn Lewis

**Yn Rhifyn 6 o Llygad Barcud (Nadolig 2005) bum yn trafod y pymtheg math o wylanod a welwyd yn ardal Porthmadog hyd at y flwyddyn honno. Mi orffenais yr erthygl trwy geisio dyfalu pa fath o wylan fuasai'r un nesa i ymweled a'r ardal yn y dyfodol. Ymysg y rhywogaethau o wylanod prin y bu i mi restru oedd yr Wylan Chwerthinog o Ogledd America. Trwy ryw wyrthiol gyd-ddigwyddiad ar ôl i mi yrru'r erthygl at Rhodri yn Nhachwedd 2005, mi ddarganfyddais Wylan Chwerthinog yn clwydo ar y maes parcio y tu allan i'r drws cefn yma ym Mhorthmadog. Mi arhosodd yr wylan arbennig honno o gwmpas Harbwr Porthmadog trwy gydol Gaeaf 2005/6 gan ddenu cannoedd o adaryddion i'w gweld.**




Dwy Wylan arall o Ogledd America y bu i mi grybwyll y buasent efallai yn ymddangos yn ardal Port rhyw ddydd oedd Gwylan Franklin a Gwylan Bonaparte. Mae unigolion o'r ddwy rywogaeth yma yn llwyddo i groesi Môr yr Iwerydd ac ymweld a Phrydain bob blwyddyn ond mewn niferoedd bychain iawn. Yn ystod 2010, er enghraifft, dim ond 7 Gwylan Bonaparte a 2 Gwylan Franklin a welwyd yn yr ynysoedd hyn.

Ychydig a ddychmygais mewn llai na chwe mlynedd ar ôl darganfod yr Wylan Chwerthinog, y buasai fy mhroffwydoliaeth yn dod yn wir ac y buaswn hefyd yn darganfod Gwylan Bonaparte – a hynny lai na hanner milltir i ffwrdd o'r ty yma ym Mhorhmadog!

Gwylan gymharol fechan yw Gwylan Bonaparte. Mae hi yn amlwg yn llai na'r Wylan Benddu gyfarwydd ond yn fwy na'r Wylan Fechan a welwn ar adegau yng Nghymru.

Mae ei chorff yn wyn a'r hadennydd yn llwyd tywyll. Mae plu'r pen yn ddu yn ystod y tymor nythu ond yn ystod y gaeaf mae'r pen yn wyn gyda smotyn du amlwg i'w weld y tu ôl i'r llygaid. Coesau byr pinc neu goch golau sydd

ganddi ond yn wahanol i'r Wylan Benddu mae'r pig yn ddu.



Pan maent yn hedfan, mae Gwylanod Bonaparte yn debycach i forwenoliaid na gwylanod. Mae'r nodweddion yma i gyd yn gwneud yr Wylan Bonaparte yn aderyn gweddol hawdd i'w adnabod - yn enwedig pan y'i gwelir ymysg heidiau o Wylanod Penddu. Mae'r unigolion hynny sy'n ymddangos ar yr ochr yma i Fôr yr Iwerydd fel arfer yn ymuno â heidiau o Wylanod Penddu.

Ac felly yr oedd hi ar Fai 23ain eleni. Roedd hi'n chwythu'n reit hegar o'r De-Orllewin pan fentrais allan ar y Cob ym Mhorthmadog y p'nawn hwwnw. Tua chwarter y ffordd ar hyd y morglawdd gwelais haid fechan o Wylanod Penddu yn hedfan uwchben yr Afon Glaslyn. Wrth edrych arnynt trwy fy sbienddrych sylweddolais bod 'na wylan lai o faint ymysg yr haid ac ar yr olwg gynta ystyriais mai Gwylan Fechan oedd hi. Gwelir unigolion o'r rhywogaeth yma yn mudo heibio'r ardal yn y Gwanwyn ar eu ffordd i'w mannau nythu yn y Baltig. Ond wrth edrych ar yr wylan ddieithr yn fanylach sylweddolais bod y plu o dan yr adennydd yn olau yn hytrach na thywyll fel yn y Wylan Fechan.

Dim ond un wylan arall oedd yn bosib' iddi fod a honno oedd Gwylan Bonaparte. Ond roedd yn rhaid i mi gael golwg well arni....

Ychydig wythnosau ynghynt roeddwn wedi bod yn ffodus i weld fy Ngwylan Bonaparte gyntaf ar Draeth Lligwy yn Sir Fon. Roedd yr aderyn hwnnw wedi bod yno ers rhai wythnosau ond mi gymerodd sawl trip dros Bont y Borth cyn i mi ei gweld. Roedd yr unigolyn hwnnw yn sefyll yn llonydd ar y tywod – gan felly alluogi i ni astudio bob pluen ohoni. Nid felly yr wylan ddieithr ymysg y Gwylanod Penddu ar y Cob y pnawn gwyntog hwnnw. Yn ffodus fe hedfannodd yr haid o wylanod tua'r llifddorau ar ochr Porthmadog i'r Cob, gan lanio ar y gwair ger y dorlan yno. Rhuthrais yn ôl at y fan honno, ac wrth edrych trwy fy nghelesgop mi ail-ddarganfyddais yr wylan ddieithr ymysg yr haid o wylanod eraill.

Sylweddolais yn syth mai Gwylan Bonaparte ifanc oedd hi. Nid oedd y pen yn ddu fel y buaswn yn ei ddisgwyl ar oedolyn yr adeg yma o'r flwyddyn, ac roedd plu tywyll i'w gweld ar yr adennydd. Fel y gwylanod bychain eraill, mae'r Wylan Bonaparte yn cymeryd dwy flynedd cyn dod yn oedolyn.

Ar ôl i mi ffonio cyfeillion neu gadael negeseuon tecst ar eu ffonau symudol i'w hysbysu bod aderyn eithriadol o brin i'w weld ym Mhorthmadog fe ddaeth adarydd arall ataf gan ofyn y cwestiwn arferol - "Oes na rhywbeth o gwmpas?". Ar ôl imi egluro fod yna Wylan Bonaparte yn clwydo ar y gwair lai na can troedfedd i ffwrdd oddiwrtho sylweddolais ei fod yn cario camera digidol. Ar yr un pryd sylweddolais nad oedd fy nghamera i gennyf ac ar ôl gofyn i'r adarydd arall geisio tynnu un neu ddau o luniau o'r Wylan Bonaparte mi rhuthrais am adra i nol fy nghamera i.

Yn anffodus roedd yr wylan wedi diflannu pan ddychwelais - ond roedd yr adarydd arall wedi llwyddo i dynnu un neu ddau o luniau oedd yn ddigon derbyniol i mi allu profi mai Gwylan Bonaparte yr oeddwn wedi ei gweld.

Hwn oedd y tro cyntaf i'r rhywogaeth gael ei gweld ym Mhorthmadog yn Sir Gaernarfon fel y dywedais - ond wrth i mi eistedd ar y Cob Crwn y pnawn hwnnw sylweddolais fod yr Wylan Bonaparte hefyd wedi croesi'r ffîn i Feirionnydd.

Mae'r ffîn rhwng sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd tua chwarter y ffordd ar hyd y Cob o ochr Porthmadog i'r morglawdd ac fe hedfannodd yr wylan brin hon drosto yn y gwynt mawr y pnawn hwnnw. Yn ystod y dyddiau nesaf mi welais hi yn clwydo sawl gwaith ar y tywod ochr y môr i'r Cob hefyd. Dyma'r tro cyntaf eirioed i Wylan Bonaparte ymweld a Sir Feirionnydd. Ceir un cofnod arall o Sir Gaernarfon sef oedolyn oddiar Ynys Enlli ar Dachwedd 6$^{ed}$ a 7$^{fed}$, 1984. Wrth astudio llyfrau adar ar ôl mynd adra, sylweddolais pa mor brin yr oedd y rhywogaeth yng Nghymru gyda dim ond wyth cofnod hyd at y flwyddyn 2000. Yn wir, dim ond 165 o unigolion sydd wedi cael eu gweld erioed ym Mhrydain hyd at y flwyddyn 2010.

Yn ffodus, fe ddychwelodd yr wylan brin ar ôl swper y noson honno a daeth criw bychan o adaryddion i'w gweld yn bwydo ar y mwd yn Llyn Bach. Mi arhosodd yn yr ardal tan ddiwedd pnawn Mai 31$^{ain}$ gan ddenu adaryddion o bell i'w gweld. Llyn Bach oedd ei hoff fan, a hynny yn enwedig pan oedd y llanw i lawr a'r mwd wedi cael ei ddad-orchuddio. Roedd yr wylan yn treulio oriau yn bwydo ar y mwd ac yna'n hedfan gyda'r gwylanod eraill dros y Cob i glwydo pan roedd y llanw yn ail-orchuddio y gwastadedd mwdlyd. Mi roedd ei harferion felly yn debyg iawn i'r Wylan Chwerthinog a dreuliodd fisoedd y gaeaf yma chwe mlynedd yn ôl - er ni welais yr Wylan Bonaparte erioed yn cael ei denu gan fara na sbarion sglodion!

Er mai gwynt mawr o'r De-Orllewin a'i chwythodd i mewn i Fae Tremadog ac yna i'r Cob ym Mhorthmadog, mae'n byr anhebygol ei bod wedi cael ei chwythu yr holl ffordd o'r Amerig bell bryd hynny. Mae'r rhywogaeth yn nythu yn rhyfeddol mewn coed pïn yn y Taiga yn y rhannau gogleddol o America. Ar ôl y cyfnod nythu mae'r Gwylanod Bonaparte yn mudo i'r De tua'r arfordiroedd yng Ngogledd America. Mai'n debygol fod yr unigolyn ifanc, di-brofiad yma a welais ym Mhorthmadog wedi cael ei chwythu drosodd i Ewrop yn ystod ei thaith cyntaf i'r mannau gaeafu hynny. Buasai wedi treulio'r gaeaf diwethaf yn Ewrop rhywle i'r De o Borthmadog ac yna tra'n mudo yn ol ei greddf tua'r Gogledd yn y Gwanwyn wedi cael ei chwythu at y Cob ddiwedd Mai pryd y bum yn ffodus i'w gweld.



# Taith y Cob a diwrnod agored Cuddfan Boston Lodge

## Rhagfyr 17eg, 2011

**Er gwaetha'r bygythiad o dywydd drwg fe ddaeth criw da at ei gilydd ar gyfer ein taith Nadoligaidd flynyddol yng nghyffiniau Porthmadog.**



*Rhai o'r criw ar y Cob Crwn (llun: H Dafydd)*

Cyfarfod ger Recordiau'r Cob fel arfer a phawb wedi ei lapio fel nionyn. Mi oedd angen hynny hefyd oherwydd y gwynt oer a'r cawodydd o genllysg ac eirlaw ddaethant bob yn ail â heulwen braf. Mi oedd y golau'n fendigedig yr ochr bella i'r dorau llanw a chryn dipyn o adar yn y pyllau ochr y Glaslyn: haid dda o wyddau gwylltion ac ychydig o Ganadians efo nhw; chwiwellod; criw da (rhai ugeiniau) o gornchwiglod; a haid o tua 20 o bibyddion yr aber yn hedfan yn glos at ei gilydd cyn glanio a rhoi golygfa dda iawn inni drwy'r telisgôps mewn golau bendigedig. Gwyach bach yn plymio a tua 20a o rostogiaid (rhai cynffon ddu yn ôl be all'sem weld) ac ar yr ynys yn yr afon rhai ugeiniau o ylfinirod a gwylanod yn clwydo yng nghwmni hydnoed mwy o gornchwiglod. Y lliwiau'n fendigedig yn yr haul.

Ond mi ddaeth cawod go drom o rywle a ffwrdd a ni rownd y Cob Crwn i'r pendraw. Roedd y llanw yn uchel, felly dim llawer ar y dwr heblaw cwpwl o chwiaid brongoch.

Roedd 'na un rhostog cynffonddu yn cadw cwmni i ryw haner dwsin o biod môr ar y borfa ar ein ffordd rownd yr ochr bella. Anaml mae rhostog ar y borfa fel oedd hwn, ond, mi oedd o'n amlwg yn cael trafferth cerdded – yn hercian ar y goes chwith. Tybed oedd o wedi cael ei saethu? Roedd o'n hedfan yn iawn.

Draw a ni wedyn ar hyd llwybr beics y Cob – i gael cysgod rhag y tywydd a chyrraedd cuddfan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ger hen dollborth Rebecca erbyn cinio. Roedd hi'n ddiwrnod agored yno heddiw a dydd Sul, wedi ei drefnu ar y cyd â Chyfeillion Borth y Gest fel rhan o gic ola dathliadau Cob 200.

Roedd carafan / arddanghosfa deithiol yr Ymddiriedolaeth yn y maes parcio gerllaw dan ofal Kate a Geoff Gibbs (BTO), Kelvin Jones, a Gareth a Rachel Williams. Braf iawn oedd cael panad / cawl poeth yno ac eistedd yn y guddfan i f'yta cinio neu loetran a janglio yng nghyffiniau'r giarafan. Mi adawon ni gyflenwad o'n taflen 'Bywyd Gwyllt o'r Cob' yn y giarafan.



*Yr olygfa o'r guddfan (llun: H Dafydd)*

Roedd yr olygfa o'r guddfan yn anhygoel dros y morfa â'r lliwiau'n fendigedig. Roedd haid fechan o chwiwellod ar y dwr o'n blaenau a dwy chwadan lygad aur yn plymio. Mi ddaeth hebog tramor heibio ar sbec i weld os oedd helfa, ond ddaeth o ddim i lawr chwaith.

Rhai yn mynd yn eu holau o flaen y lleill i siopa yn Port m'wn, Mi aeth y gweddill yn y man ar hyd pen y Cob a chyfarfod Elfyn Lewis ar y ffordd. Rhaid oedd gofyn i'r arbenigwr: "Be 'dan ni 'di golli?", a chael gwybod bod haid o dros fil o gornchwiglod yma ddoe a tair gwylan fach yn y Cob Crwn. Mater o lwc ydi o ynde?

Ar y ffordd yn ôl mi ddaeth yn gawod hegar iawn o genllysg ac mi gawsom ein chwipio yn ddidrugaredd. Roeddwn i (gesiwch pwy?) yn lwcus bod gen i locsyn i arbed y rhan fwya o ngwyneb, heblaw fy nhrwyn, ond mi ddaeth pawb drwyddi yn iawn a mynd am paned / huf en iâr bendigedig yn Cadwaladers i orffen.



*Y frongoch **yn** plymio (llun, o'r Cob, H Dafydd)*

## "Rhuthr eryr mewn aberoedd..."

Ieuan Bryn

**Golygfa na hoffwn i fyth mo'i hanghofio ydi'r un welson ni, rai misoedd yn ôl, ar un o ynysoedd Gorllewin yr Alban. Ar Ynys Mull yr oedden ni, yn edrych ar deulu o eryrod y môr – yr iâr a dau gyw gwyn yn y nyth, a'r ceiliog yn cadw golwg ar bethau ar gangen ychydig lathenni i ffwrdd.**



Roedd yr iâr wrthi'n bwydo'i chywion, ac ar ôl gorffen, dyma hi'n codi a hedfan am sbel yng nghyffiniau'r nyth - ei chynffon yn glaer wyn a maint ei hadenydd yn anghredadwy! (Ydyn, maen nhw fel 'drysau sgubor' ac yn wyth troedfedd a mwy pan fyddan nhw ar agor led y pen).

Tua wythnos oed oedd y cywion, ac mi ddaeth y ceiliog i lawr atyn nhw ymhen tipyn.

Dim ond tair rhywogaeth arall o adar ysglyfaethus yn y byd i gyd sy'n fwy na nhw. Mae corff yr iâr dros lathen o hyd, ac mae hi'n pwyso pymtheg pwys a hanner. Ond er eu maint, mae'r eryrod hyn yn hynod o ystwyth, yn enwedig pan fyddan nhw'n ymosod ar adar sy'n eu plagio nhw neu pan fydd y ceiliog yn mynd drwy'i gampau yn ystod y tymor paru.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, mi welais drosof fy hun pa mor ddeheuig ydyn nhw. Roeddwn i wedi bod yn cerdded dyffryn llydan, trawiadol Strathdearn (rhwng Aviemore ac Inverness). Wrth nesu at ben y daith, dyma eryr y môr

yn llithro drwy'r awyr yn isel uwch fy mhen. Y funud nesaf, roedd yna ddau fwncath a hebog tramor yn ymosod arno am y gorau. Mi roliodd yr eryr ar ei gefn yn yr awyr nifer o weithiau a herio'r tri efo'i grafangau agored. Ac mi aeth yn ei flaen i hela wedyn fel petai yna fawr ddim wedi digwydd.

Yn yr Oesoedd Canol, roedd yna eryrod y môr ar hyd a lled Gwledydd Prydain ond wrth i fwy a mwy o goedwigoedd gael eu clirio i wneud lle i bobl fyw a chrafu bywoliaeth, mi wthiwyd yr eryrod i'r Gogledd a'r Gorllewin, a dechreuwyd eu herlid.



Mae yna amryw o enwau Gaeleg arnyn nhw: *Iolaire mhara* (eryr y môr), *Iolaire fhionn* (eryr gwyn), *Iolaire ghlas* (eryr llwydlas), *Iolaire bhàn* (eryr gwelw), *Iolaire bhreac* (eryr brith) a *Iolaire chladaich* (eryr y glannau).

Gall gymryd blwyddyn gron i'r ceiliog ddod o hyd i gymar ond ar ôl 'canfod ei gilydd', mi fyddan nhw'n aros efo'i gilydd am oes, fel rheol.

Mae eu defodau paru nhw'n ddifyr ac yn rhyfeddol. Mi fydd y ceiliog yn 'dawnsio' yn yr awyr (fel sawl aderyn ysglyfaethus arall pan fydd hi'n adeg denu cymar), ac os bydd hyn yn creu argraff ar yr iâr, mi fydd hi'n cydio yng nghrafangau'r ceiliog ac mi fydd y ddau'n troi fel olwyn yn yr awyr, gan ddisgyn o fewn ychydig droedfeddi i'r ddaear. Ysgubo i'r entrychion wedyn, a gwneud yr un peth eto.

Mae'r nyth tua phum troedfedd ar draws ac yn dair troedfedd yn ei ddyfnder, ac oherwydd bod eryrod y môr yn defnyddio'r un nyth o flwyddyn i flwyddyn, mi all maint y nyth gynyddu'n ddirfawr wrth i'r adar gludo mwy a mwy o ddeunydd iddo. (Mae yna sôn bod un nyth yn 12 troedfedd yn ei ddyfnder!) Mi fydd o bob amser yn agos at ddwr ac o fewn dwy filltir, fel arfer, i'r man hela.

Yn wahanol i walch y pysgod, fydd eryr y môr ddim yn plymio o dan y dwr wrth bysgota ond yn hytrach yn cipio pysgod sy'n nofio'n agos at yr wyneb.



Y dechneg arall ydi loetran mewn dwr fel crëyr a dal y pysgod felly.

Mi fydd yr eryrod yn cipio adar yn yr awyr ac, yn aml, yn dwyn pysgod oddi ar ddyfrgwn! Mi fyddan nhw hefyd yn ymborthi ar sgerbydau ceirw a defaid ac ar wyn bach, mynnod geifr neu geirw bychain.

Erbyn 1800, dim ond yn yr Alban yr oedd yr eryrod hyn i'w gweld, ac yno, roedd perchnogion yr ystadau'n gwirioni ar saethu grugieir ac yn fodlon gwneud unrhyw beth i gael gwared ar adar ysglyfaethus. Cafodd cannoedd o eryrod eu gwenwyno'n fwriadol yn ystod y 19eg ganrif, a dywedir i rywun yn 1825 saethu pump ohonyn nhw mewn un diwrnod ar Ynys Rum.

Ar Ynys Skye yn 1916 y cafwyd y pâr olaf, ac ar Ynysoedd Shetland yn 1918 y saethwyd yr eryr môr unigol olaf. Aeth bron drigain mlynedd heibio wedyn cyn y gwelwyd eryrod y môr yng Ngwledydd Prydain unwaith eto.

Ond codi eto wnaethon nhw, a hynny yn sgil prosiect i ailgyflwyno'r adar ar Ynys Rum rhwng 1975 a 1985. Daethpwyd ag 82 o eryrod ifanc i'r ynys o Norwy yn ystod y ddegawd honno, a bu llwyddiant mawr.

Yn 1983 y cafwyd yr wyau cyntaf ar Ynys Mull ond bu'n rhaid aros am ddwy flynedd arall cyn gweld y cyw cyntaf yn gadael y nyth yn fyw ac yn iach.

Rhwng 1993 a 1997, ailgyflwynwyd 58 o eryrod yn Wester Ross, ac yn 2007, ailgyflwynwyd amryw ohonyn nhw ar arfordir dwyreiniol y wlad. Erbyn hyn, maen nhw wedi sefydlu dros ddeugain o diriogaethau yn yr Alban, ac mae yna dros 35 o gywion wedi magu'n llwyddiannus.

Ond mewn gwirionedd, mae eu hanes yn yr Alban yn mynd yn ôl i'r cyfnod cyn-hanesyddol. Byddai trigolion Ynysoedd Erch, er enghraifft, yn gosod sgerbydau eryrod y môr yn eu beddau. Canfuwyd dros ddeg ar hugain o eryrod mewn un gladdfa, ac ymddengys i'r arfer hwn bara tan o leiaf Oes yr Haearn.

**Eryr y Beirdd**

Ceir nifer o gyfeiriadau at eryrod y môr mewn hen farddoniaeth Eingl-Sacsoneg. Dyma linellau o gerdd o'r 10fed ganrif sy'n sôn am filwyr yr Eingl-Sacsoniaid:

> [They] left behind them
> The black-coated raven, horny-beaked
> To enjoy the carrion,
> And **the grey-coated eagle, white-tailed,**
> To have his will of the corpses.

Ymhell cyn hynny yn yr Hen Ogledd - mor bell yn ôl â'r 6ed ganrif - roedd Aneirin yn cofio am un o'i gydwladwyr a laddwyd yng nghyflafan Catraeth:

> Torchog ryfelwr, gwlad rwyd,
> **Rhuthr eryr mewn ebyr** pan y'i porthwyd.
> Ei amod a fu'n nod a gadwyd.

"Rhuthr eryr mewn aberoedd." Pa fath o eryr oedd ym meddwl y bardd – eryr aur ynteu eryr y môr?

Ganol y 9fed ganrif yng Nghanu Llywarch Hen, molir cadfridog o'r enw Gwên:

> Gwên, gwyddwn sut y brwydrit:
> **Rhuthr eryr ar aber** oeddit.

Ac yng Nghanu Heledd o'r un cyfnod, ceir englynion i Eryr Eli:

> **Eryr Eli, gwylia'r moroedd –**
> **Ni threiddia pysgod i'r aberoedd...**

Pa fath o eryr oedd hwn?

A beth am Eryr Gwernabwy, "un o'r creaduriaid hynaf yn y byd oll"? Mae yna gyfeiriad diddorol iawn ato yn chwedl Culhwch ac Olwen. Dywedir iddo fod yn agos at foddi unwaith **pan geisiodd gipio eog o lyn**, a'r eog ystrywgar yn ei dynnu o dan y dwr!

Eryr yn rhoi cynnig ar gipio pysgodyn o lyn. Pa rywogaeth fyddai'n gwneud hynny? Eryr aur? Na, na. Eryr y môr, heb os nac onibai. Mi fydd o'n pysgota mewn llynnoedd yn ogystal ag yn y môr, a dyna pam bod 'eryr tinwen' yn well enw arno fo, mewn gwirionedd.

Ac os ydi fy namcaniaeth i'n gywir, mi wna'i yn siwr na fydda'i fyth bythoedd yn anghofio'r eryrod y môr a welais i ar Ynys Mull.




# C'lomenod y Post

## gan Twm Elias

*[addasiad, gydag ychwanegiadau, o sgwrs roddwyd ar Galwad Cynnar, Radio Cymru (Tachwedd 26ain, 2011), oedd yn ei thro yn addasiad o ran o'r sgwrs 'Stori ar Stamp' roddwyd i Gymdeithas Ted ym Mhlas Tan y Bwlch naw niwrnod ynghynt]*


**Cyn i'r gwasanaeth Post modern, y telegraff, tonfeddi radio ac, erbyn heddiw, yr e-gyfryngau digidol ddwad i fodolaeth mi fyddai sawl dull o drosglwyddo negeseuon o un lle i'r llall. Mi fyddai'r dulliau hynny, fu ar waith ers rhai miloedd o flynyddoedd, 'mbach yn arafach na heddiw ac yn dibynnu, i raddau helaeth, un ai ar redwyr fyddai'n mynd ar droed neu ar geffyl gan oresgyn pob mathau o drafferthion a pheryglon ar eu ffordd. Ond rhaid inni beidio anghofio cyfryngau eraill – fel y negeseuon drosglwyddwyd yn gyflym gan goelcerthi rhybydd yr hen Frythoniaid; colofnau mwg Indiaid Gogledd America; drymiau (*tom-toms*) rhai llwythau yn Affrica a'r seiniau fyddai'n cario ymhell o gyrn hirion pobl yr Alpau a'r Himalyas.**

Bu adar yn gyfrwng pwysig arall i gario negeseuon ac mae hanes hir i hynny – be am Branwen, pan gafodd ei hambygio yn yr Iwerddon? Be wnaeth hi ond gyrru neges at Bendigeidfran ei brawd efo drudwen yr oedd wedi ei dofi?




*Branwen a'r ddrudwen [llun: Margaret Jones, yn 'Y Mabinogi', addasiad Gwyn Thomas (1984)]*

Roedd yr Eifftiaid, y Persiaid yr Asyriaid a'r Rhufeiniaid, 2 – 3,000 o flynyddoedd yn ôl, yn defnyddio c'lomenod i gario negeseuon o faes y gad ac mi fyddai enwau'r buddugwyr yn y Gemau Olympaidd gwreiddiol yn cael eu cario gan g'lomenod i wahanol ddinasoedd yng Ngwlad Groeg yn yr un cyfnod. Byddai masnachwyr a byddigions y Canol Oesoedd yn gyrru negeseuon ar adain hefyd, a ch'loman ddaeth â'r newyddion o Ffrainc i Loegr am lwyddiant ym mrwydr Waterloo yn 1815. Adeg yr Ail Ryfel Byd, c'loman o'r enw Paddy ddaeth a'r newyddion cynta am y glaniad yn Normandi – am nad oedd y Cyngreiriaid am fentro gyrru neges radio.



*C'lomenod Post Canol Oesol*



*C'lomenod Post â negeseuon yn sownd ar goes a chynffon*

Cychwynodd Paul Reuter, aeth ymlaen i sefydlu gwasanaeth newyddion byd eang, ei fusnes drwy defnyddio c'lomenod i gario gwybodaeth am brisiau'r farchnad stoc rhwng rhai o ddinasoedd Ewrop yn yr 1850au.


Daeth c'lomenod i'w bri yn ystod gwarchae Paris yn 1870-71, adeg y Rhyfel Ffranco-Prwsaidd, pryd y bu'r defnydd o g'lomenod i gario negeseuon milwrol yn




*C'loman Bost fodern*

llwyddiant mawr i'r y Ffrancwyr. Yn dilyn hynny bu adfywiad yn yr arfer o hyfforddi c'lomenod ac aeth llawer o lywodraethau ati i sefydlu eu post c'lomenod milwrol eu hunnain a'i gwneud yn drosedd difrifol i saethu neu amharu mewn unrhyw ffordd ar yr adar hyn. Talwyd bownti yn ogystal am ddifa hebogiaid ac adar ysglyfaethus eraill allasai eu peryglu.

Buan y daeth adrannau eraill o wahanol lywodraethau i ddefnyddio c'lomenod ac fe'u mabwysiadwyd gan newyddiadurwyr a gwyr busnes. Daethant yn ffasiwn hefyd gan unigolion preifat i drosglwyddo negeseuon yn gyflym.



On Her Majesty's Service.

Letters for despatch
by *Carrier Pigeons.*

The
DIRECTOR-GENERAL
of Posts and Telegraphs,
TOURS.

Weight of Letters ——— ozs.
credited to France under
Art. 1. Table 2 of the Letter Bill.

GENERAL
Post Office
LONDON.

*Llythyr swyddogol Post C'loman rhwng Llundain a Tours yn Ffrainc*

Roedd meddyg yn ardal Cricieth yn mynd â llond cratsh o g'lomenod efo fo pan fyddai'n gwneud ei rownds o dai byddigion yr ardal. Clymai'r presgripsiwn am unrhyw feddyginiaeth ar goes c'loman a'i gollwng. Golygai hynny y byddai'r ffisig ar gownter y syrjeri'n barod erbyn pryd fyddai gwas y

byddigyn yn cyrraedd i'w nol. Dyna be oedd gwasanaeth ynde?

Yn yr Unol Daleithiau rhoddwyd c'lomenod ar waith i gario newyddion a negeseuon mewn argyfyngau meddygol rhwng Ynys Catalina a thir mawr Califfornia yn y 1890au a rhwng goleudai ac ynysoedd yng Nghanada yn yr un cyfnod. Hefyd, wyddoch chi mai ar gyfer gwasanaeth Post C'lomenod yn Seland Newydd – rhwng Ynys Great Barrier a'r tir mawr – y cyhoeddwyd y stampiau Post Awyr cynta erioed, yn 1898? Roedd hynny ymhell cyn y dyfeisiwyd awyrennau.




Stamp y gwasanaeth *Pigeon-gram* ar Ynys Great Barrier

Adeg y Rhyfel Byd 1af, am ei bod mor fwdlyd a pheryglus i deithio yn agos i'r ffrynt a bod gwifrau teliffôn yn cael eu malu'n gyson, mi fyddai c'lomenod yn cael eu defnyddio fel telegraff adeiniog a hydnoed i dynnu lluniau o'r awyr gan y ddwy ochr. I geisio atal c'lomenod y Cynghreiriaid rhag gwneud hynny rhoddodd yr Almaenwyr nifer sylweddol o hebogiaid ar waith i drio eu dal ac yn arbennig i gael gafael ar y negeseuon yr oedden nhw'n eu cario.

Rhwng llwyddo i osgoi hebogiaid a bwledi'r gelyn 'does ryfedd i rai o'r clomenod rhyfel hyn ennill edmygedd a hydnoed medalau am eu ghwrhydri: e.e., mi gafodd un c'loman Ffrengig o'r enw *Cher Ami*, fedal y *Croix de Guerre* adeg y Rhyfel 1af am gario dros ddwsin o negeseuon pwysig wnaeth achub llawer iawn o fywydau.

Ar ei thaith olaf, yn Hydref 1918, mi gariodd *Cher Ami* y neges bod carfan o Ffrancwyr wedi cael eu hamgylchynnu gan yr Almaenwyr a'u bod bron a rhedeg allan o fwledi. Er gwaetha cael ei hanafu ar y daith honno – fe'i saethwyd drwy ei brest a chollodd ran o'i choes – mi lwyddodd y g'loman fach gyrraedd adra' yn fyw. Cynhaliwyd cyrch i achub y milwyr, ac mi fu hynny'n llwyddiannus hefyd.

Weithiau, mi fydda negeseuon go annisgwyl yn cyrraedd. Un tro, mi dderbyniodd HQ'r Cynghreiriaid ar y Ffrynt Orllewinol y neges: *"G'loman lwcus – yn cael dianc o'r uffern lle yma!"*

Yn ystod yr 2il Ryfel Byd fe fagwyd 200,000 o glomenod i wasanaethu lluoedd arfog Prydain ac mi enillodd 32 ohonyn nhw y fedal Dickin (sef medal Brydeinig i anifeiliaid am ddewrder). Byddai rhai yn cael eu gollwng mewn cratsh ar barasiwt y tu ôl i linellau'r Almaenwyr i gario negeseuon yn ôl o'r *Resistance* yn Ffrainc. Roedd y rhain yn rhan o'r *CPS* (sef gwasanaeth cudd a elwid y *Confidential Pigeon Service*)! Ond, yr enwoca' o'r cwbwl, o bosib, oedd y g'loman Americanaidd: GI Joe – wnaeth achub bywydau miloedd lawer o filwyr.

Mi enillodd GI Joe lond brest o fedalau – mi gafodd o'r *Congressional Medal of*



*C'loman Almaenig yn ei gwisg ysbïwr*

*Honour* gan yr UD, a fo oedd y creadur am-Mhrydeinig cynta i ennill Medal Dickin – mae'n anodd meddwl sut yr oedd o'n medru hedfan efo'r holl fedalau! Ei wrhydri mwya oedd yn yr Eidal pan oedd lluoedd

Prydain yn paratoi i ymosod ar fyddin o Almaenwyr ym mhentre Colvi Vecchia. Mi ofynwyd i'r awyrlu fomio'r lle yn gynta, cyn symud i mewn. Ond, yn y cyfamser, ar Hydref 18fed, 1943, mi lwyddodd carfan o'r lluoedd Prydeinig i dorri drwodd a chipio'r pentre yn weddol hawdd, oedd yn golygu nad oedd angen y bomio felly.

Ond gwae! – mi sylweddolwyd yn sydyn bod eu radio wedi cael ei chwalu yn y frwydr – ac onibai y buasen nhw'n medru canslo'r bomio – mi fuasa'r Prydeinwyr yn cael eu bomio gan eu hochor nhw'u hunnain. Eu hunnig obaith oedd c'loman! Ac mi ddewiswyd GI Joe i gario'r neges dyngedfenol fyddai'n eu hachub nhw.



*GI Joe efo un o'i fedalau*

Wel, efo dim ond hanner awr i fynd cyn y bomio, mi ffliodd yr hen g'loman fach yr 20 milltir i'r Pencadlys mewn 20 munud (cyflymdra o 60mya) – gan gyrraedd jyst fel oedd yr awyrennau yn symud lawr y rynwê yn barod i gychwyn ar eu cyrch! Hefo dim ond munudau'n sbâr, mi lwyddwyd i atal y bomio – oedd yn golygu bod GI Joe wedi achub bywydau rhai cannoedd o filwyr.

Daliodd c'lomenod ati i gario negeseuon hyd yn ddiweddar iawn. Dim ond ym Mawrth 2002 y diddymwyd Gwasanaeth Negeseuon Clomenod yr Heddlu yn yr India. Mi fu'r gwasanaeth hwn yn bwysig ers canrif a mwy – yn arbennig adeg trychinebau, megis daeargrynfeydd a llifogydd, pan fyddai'r telegraff, ffônau a thrydan ar chwal. Dim ond yn y blynyddoedd diwetha' 'ma, pan ddaeth ffonau symudol yn gyffredin, y daeth yn bosib meddwl am roi'r gorau i g'lomenod.

Ydi, mae ein dyled yn fawr iddyn nhw.

52 Tan y Foel
Borthygest
Porthmadog

Annwyl Olygydd,

Mwynheais yn fawr eich cyfraniad am y parotiaid, a'r adar sydd yn efelychu, yng nghylchlythyr 23, Cymdeithas Ted Breeze Jones, Haf 2011.

'Roedd pedwar ohonom oedd yn fyfyrwyr yn y Coleg ym Mangor flynyddoedd maith yn ôl yn lletya mewn rhes o dai teras. Drws nesaf ond un inni 'roedd parot yn cael ei roi allan pob dydd. Ym marn llawer Saesnes gegog ac amhoblogaidd iawn oedd ei berchennog. Cyhuddodd ni o ddysgu ei pharot i regi. Rhaid oedd inni gyfaddef yn dawel fach fod elfen o wir yn hynny. Fe wnaethom ni sylweddoli ein bod yn aml wrth adael y ty ar fore glawog yn dweud, yn ddifeddwl braidd, "Am ddiawl o fora". Daeth y deryn i'n hefelychu i'r dim.

Cyn hynny 'run oedd ei dôn gron. Rhywbeth fel *"una rwja fieja sela"*. Gan fod ei diweddar wr yn forwr, a dreuliodd gyfnodau hir yn Ne America, daethom i'r casgliad mai Sbaeneg oedd y parot yn siarad. Cawsom ferch oedd yn rhugl yn yr iaith i ddod draw. Daeth hi i'r casgliad mai rhywbeth tebyg i *"una ruja viejaes ella"* oedd y gwr wedi geisio ei ddysgu i'r deryn sef – "hen wrach di hi".

Dyma ni'n penderfynu y buasem yn Cymreigio'r hen gyfaill a dweud yn dawel am wythnosau wrth fynd heibio "ia hen wrach ydi hi" gan ysgwyd ein pennau i fyny ac i lawr i gadarnhau hynny. Daeth i ailadrodd mewn Cymraeg rhugl!

Cofion,

Maldwyn Lewis

***Sawl c'loman a sawl parot?***


Wyddoch chi fod yna, yn nheulu'r *Columbidae* (c'lomenod a thurturod), gyfanswm o 301 o rywogaethau, yn cynnwys 51 o wahanol g'lomenod (Teulu *Columba*) a 250 o durturod a'u tebyg (mewn 40 o deuluoedd).

Mae yna 268 o wahanol barotiaid (Teulu *Psittacidae*) heb son am 19 math o gocatw a 55 math o loriaid/loricitiaid.

# Y Pengwyn olaf

Rhodri Dafydd

**Fel llawer ohonoch rwy'n siwr, fe'm rhyfeddwyd yn ddiweddar gan waith camera anhygoel criw bywyd gwyllt y BBC ym Mryste, a'u campwaith ddiweddaraf '*Frozen Planet*'. Bu gennyf gryn ddiddordeb ym mannau oeraf ein byd ers blynyddoedd, a thrwy gyfrwng y rhaglen hon roedd modd mentro i'r ddau begwn heb symud o'r ty, a chael teimlo, am awr ar nos Fercher bob wythnos, fy mod innau yn trigo mewn tirlun iasol, pur ac anial... (ond wedyn yn gallu rhoi rhyw goedyn ychwanegol ar y tân i gynhesu rhyw chydig ac yn gallu picio i'r gegin i wneud paned wedi i'r rhaglen orffen!)**



John James Audobon

Fel pob rhaglen wrth gwrs, nid oedd modd rhoi sylw teilwng i bob rhywogaeth, a chefais fy siomi braidd fod rhai o adar lleiaf yr arctig wedi eu hanwybyddu'n llwyr. Difyr fyddai gweld er enghraifft fwy o'r adar sy'n dod i'n glannau ni dros y gaeaf, gan mai hwy yw ein cysylltiad pennaf a'r Arctig. Ond, wedi dweud hyn, rhaglen i syfrdanu oedd hon i fod, ac yn hynny o beth, nid oedd posib bod yn siomedig, oherwydd dyna sioe a gawsom. Y rhywogaethau mawr, poblogaidd oedd ser y rhaglen – o'r Orca, i'r arth wen, i'r albatros – dyna wledd i'r llygad a gafwyd.

Ac wrth gwrs, rhoddwyd peth sylw hefyd i'r PENGWINIAD. Am ryw reswm, mae'r rhain yn adar poblogaidd dros ben. Rwy'n cofio yn blentyn i mi gael rhyw degan bychan â'r amcan oedd cael pengwiniaid bychain i lithro i lawr rhyw

lethr sgio rhewllyd. Treuliais oriau diwyd yn eu cynorthwyo yn hyn o beth. Mae pengwiniaid hydnoed yn sêr ffilmiau erbyn hyn – welsoch chi '*Happy Feet*' a '*March of the Penguins*'? Fy ffefryn i ydi *Pingu.* Ydyn, mae pengwiniaid ym mhobman!




Hyd yn oed yn y llyfrgell, nid oes modd dianc rhagddynt – isod ceir logo un o gwmnioedd argraffu enwoca'r byd.

Heb os, y rhain yw rhai o adar mwaf poblogaidd dynol ryw.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl mai anifeiliaid y rhew a'r eira yn unig ydynt – ond nid yw hyn yn wir wrth gwrs. Er fod pob rhywogaeth yn byw yn hemisffer y de (bron iawn – mae pengwin y Galapagos ag un droed dros y cyhydedd!), mae rhai yn byw mewn gwledydd ble mae'r hinsawdd yn gymharol gynnes, megis Patagonia a De Affrica (cymharol gynnes o gymharu ag Antarctica ble mae rhai o'r pengwiniaid mwyaf enwog yn byw! – bydd yr ymerawdwr er enghraifft yn dioddef tymheredd cyn ised a 60° dan y rhewbwynt a gwyntoedd o 100m.y.a!).


Ond wyddech chi fod yna bengwin yn byw yn hemisffer y gogledd ar un adeg hefyd?

Bu cryn drafod tarddiad yr enw 'penguin' wrth gwrs. Pam eu galw'n ben 'gwyn' pan fod y rhan fwyaf a'u pennau mewn gwirionedd yn ddu? Un ateb i hyn yw mai i ni'r Cymry mae'r diolch am sut y cafodd y penguin ei enw. Roedd nifer o forwyr o Gymru ar y teithiau cynharaf i'r moroedd deheuol, a naturiol oedd hi iddynt hwy ymdebygu'r adar i adar eraill y byddent yn fwy cyfarfwydd a hwy y pryd hynny – sef y pengwyn gwreiddiol - y carfil mawr, neu'r *'great auk'*.



*Pinguinus impennis* oedd yr engrhaifft olaf o'i genws. Roedd hwn yn aderyn cymharol fawr, oddeutu 85cm o daldra, â chlwt gwyn amlwg ar ei ben – o leiaf am ran o'r flwyddyn. Aderyn o deulu'r gwylog a'r llurs oedd hwn (neu rhyw hanner ffordd rhwng y rhain a'r pengwiniaid modern), sydd eu hunain yn amrywio o ran gwynder gan ddibynnu ar y tymor. Roedd y carfil mawr yn byw ar amryw o ynysoedd creigiog anghysbell moroedd gogledd, o Newfoundland, drwy'r Ynys Las a Gwlad yr Iâ, i Ynysoedd Orkney.

Fel aderyn môr yn ei iawn ffurf, yr oedd wedi colli'r gallu i hedfan - nofio ar ôl pysgod ac ati oedd ei arbenigedd ac nid oedd arno angen dianc ar dir gan nad oedd ganddo ysglyfaethwyr naturiol yn ei gynefin creigiog (er y byddai'n bryd blasus i Orca neu eryr y môr pe gallent ei ddal heb os).



Oherwydd hyn, fel ei gefndryd pell heddiw, yr oedd yr araf a thrwsgwl ar dir. Ond fel mae hanes wedi ei ddangos i ni, ni fu dynoliaeth yn garedig wrth adar o'r fath. Yr oedd yr aderyn ei hun, a'i wyau yn ogystal, yn fwyd hawdd i forwyr a thrigolion ynysoedd pellennig ble roedd protein yn brin. Yn wir roedd yr wyau yn llawnbryd ynddynt eu hunain, a hwythau'n 12cm o un pen i'r llall. Ar ben hyn, gwnaed defnydd helaeth o'i blu.


Ac felly, yn raddol, lleihau a wnaeth niferoedd yr aderyn gogoneddus yma wrth i orhela anghynaladwy arwain at ei dranc dros holl diriogaeth ei boblogaethau.

Ar un ynys yng Nghanada, ynys Funk, diddymwyd poblogaeth o dros 200,000 o adar o fewn dim wrth i forwyr rheibus a llwglyd gymryd mantais ar ddofrwydd y creadur.

Un diwedd oedd i'r stori drist wrth gwrs – diflaniad yr hil. Lladdwyd yr un olaf yn ynysoedd Prydain ar ynys fechan Stac an Armin, St Kilda ym mis Gorffennaf 1840. Yn ôl un stori, bu i dri morwr ddal yr aderyn olaf hwn, a'i glymu ar fwrdd eu llong fel mascot am o leiaf dridiau. Mewn stori arall, ynyswyr St Kilda eu hunain a garcharodd yr aderyn olaf am dridiau. Waeth pa stori a gredwch - ar y trydydd diwrnod, cododd storm enfawr, ac yn y gred mai gwrach oedd yr aderyn, ac y mai hi a anogodd y storm, fe laddwyd yr aderyn drwy ei guro gyda ffon. Diwedd creulon a ffiaidd i aderyn diniwed.



Mae'n debyg i'r nythfa olaf o'r aderyn fyw ar ynys fechan ger Gwlad yr Iâ am ychydig flynyddoedd wedi hynny. Craig folcanig oedd Geirfuglasker (*'Great Auk Rock'*) oedd â chlogwyni serth ar bob ochr – yr oedd felly yn hynod anodd i ddyn ei chyrraedd. Ond ym 1830, bu ffrwydriad folcanig a bu'n rhaid i'r adar symud i ynys Eldey gerllaw, ynys yr oedd modd i ddyn ei throedio gwaetha'r modd. Pan ddeuthpwyd o hyd i'r nythfa 'newydd' hon, roedd o leiaf 50 o adar yn byw arni.



British Natural History Museum

Ond erbyn hyn mor brin oedd y carfil, a chymaint oedd y chwant am gasglu crwyn adar prin ar gyfer amgueddfeydd fel y bu iddynt gael eu difa yma hefyd. Lladdwyd y pâr olaf ar y 3ydd o Orffennaf 1844, gan Jón Brandsson a Sigurður Ísleifsson, a bu i Ketill Ketilsson roi'r hoelen olaf yn yr arch drwy sathru ar yr wy olaf un.

Cafwyd un cofnod olaf o'r aderyn ar y 'Grand Banks' yn 1852, ond wedi hynny, derbyniwyd fod ar aderyn wedi mynd i ebergofiant.

Erbyn heddiw, mae'n debyg fod rhyw 75 wy yn bodoli mewn casgliadau mewn amgueddfeydd, ynghyd â 24 sgerbwd ac 81 o grwyn wedi eu stwffio. Hyn oll sy'n weddill o'r pengwyn, aderyn a fu unwaith yn cyfoethogi byd natur yn ei filoedd. Ym 1971, bu i Amgueddfa yng Ngwlad yr Iâ dalu C$18,000 am aderyn wedi ei stwffio – y pris uchaf a dalwyd erioed am aderyn marw wedi ei stwffio.



Carfil mawr mewn amgueddfa ym Mrwsel – Credir fod hwn yn un o'r ddau olaf a laddwyd

Y tro nesaf y gwelwch chi bengwin ar y teledu, mewn lluniau *'high definition'*, llewyrchus – cymrwch eiliad i gofio am ei gefnder coll – ein pengwyn olaf ni, a gollwyd am byth.

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones
Ionawr - Ebrill 2012

Dydd Sadwrn, Ionawr 21$^{ain}$
**Taith: Malltraeth a Choedydd Niwbwrch, efo Rhodri Dafydd**
Cyfarfod ym maes parcio Malltraeth (SH407687) am 10.30yb

Dydd Sadwrn, Chwefror 11$^{fed}$
**Taith: Dinas Dinlle ac Aberdesach, efo Rhys Jones**
Cyfarfod ym Maes Parcio Dinas Dinlle am 10.30yb.
Byddwn yn teithio yn ein ceir oddi yma.

Nos Fawrth, Chwefror 21$^{ain}$
**Noson gymdeithasol a Seiat Natur**
Cyfarfod yn y Stablau, Plas Tan y Bwlch am 7.30yh

Nos Wenner, Mawrth 2$^{il}$ – p'nawn Sul, Mawrth 4$^{ydd}$
**Penwythnos o gyrsiau Byd Natur – Adar, Cerdded Arfordir Llyn, Daeareg**
Mwy o fanylion: Plas Tan y Bwlch – 01766 772 600

Dydd Sadwrn, Mawrth 31ain
**Taith: Croesawu teloriaid cynta'r tymor, efo Twm Elias**
Cyfarfod yn Ynys, Talsarnau (SH600355) am 10.30yb

***COFNODION*** *– Cofiwch, gyrrwch unrhyw gofnodion o adar difyr atom*


SNOWDONIA NATIONAL PARK
PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

***Plas Tan y Bwlch***
***Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri***

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**
ac i
**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau a chymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600


*Cyfranwch i'r wefan:* ***www.cymdeithastedbreezejones.org.uk***